

**COFNODION NAWFED CYFARFOD AR HUGAIN  
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 6 Gorffennaf 2023**

**LLEOLIAD: Microsoft Teams**

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

Bethan Thomas	Kathryn Robson
David Williams	Kelly Edwards (presenoldeb rhannol)
Eithne Hughes	Nicola Stubbins
Geraint Williams	Rosemary Jones
Gwawr Taylor	Theresa Evans-Rickards
Jane Jenkins	Sue Walker

**Swyddogion:**

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygu Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
David Browne	Pennaeth Priodoldeb i Ymarfer
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol ( <i>cofnodion</i> )
Sioned Wyn	Swyddog Cyfathrebu CGA ( <i>arsylwi</i> )

**1. Croeso a materion rhagarweiniol**

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r swyddogion i nawfed cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Diolchodd i'r aelodau am eu cydweithrediad wrth symud i gynnal y cyfarfod yn rhithwir yn dilyn gohebiaeth ddiweddar.
- 1.2 Atgoffwyd aelodau mai dyma fyddai cyfarfod olaf Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) gan y byddai'n ymddeol ar 31 Awst 2023. Ar ran y Cyngor, estynnodd y Cadeirydd ddiolch diffuant iddi am ei blynyddoedd lawer o wasanaeth ymroddgar.
- 1.3 Roedd Kelly Edwards wedi nodi y byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach oherwydd ymrwymiad nad oedd modd ei osgoi. Roedd Geraint Williams hefyd wedi nodi y byddai fymryn yn hwyr yn ymuno â'r cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod cworwm yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau, gan nad oedd nifer llawn yn y Cyngor.
- 1.4 Atgoffwyd aelodau, oherwydd bod oedi cenedlaethol mewn cynnal archwiliadau gan Archwilio Cymru o ganlyniad i gyflwyno safon archwilio newydd, byddai angen i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ac, yn dilyn hynny, y Cyngor, gyfarfod i adolygu a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u trefnu ar gyfer 4 a 7 Awst 2023, yn y drefn honno.

- 1.5 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau i sicrhau eu bod ar gael am y diwrnod cyfan ar 16 Tachwedd 2023 gan y byddai sesiwn gynllunio flynyddol yr aelodau'n dilyn cyfarfod y Cyngor ar y dyddiad hwnnw.

## 2. Datganiadau o Fuddiant

- 2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd

- 3.1 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Prif Weithredwr roi diweddariad i'r Cyngor ar nifer o faterion:

- **Swyddi gwag y Cyngor:** Adroddodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynegiannau o ddiddordeb trwy ei sianeli marchnata i lenwi'r ddwy swydd wag sy'n weddill ar y Cyngor. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion oedd 7 Gorffennaf 2023 ac mae swyddogion wedi cysylltu â'r Cadeirydd i'w chynnwys yn y broses recriwtio, fel y gwnaed yn flaenorol. Roedd disgwyl diweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru dros yr wythnosau i ddod.
- **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu:** Esboniodd y Prif Weithredwr, fel pwynt o eglurhad i'r Cyngor newydd, y byddai cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor eu nodi yng nghyfarfod Tachwedd 2023. Arfer blynyddol oedd hwn, o ystyried y cyfnod byr rhwng cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mehefin a chyfarfod y Cyngor ar 6 Gorffennaf, a dosbarthu papurau yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- **Hyfforddiant chwythu'r chwiban:** Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu, ynghyd â dau gyswllt enwebedig y Cyngor ar Chwythu'r Chwiban, yn cael hyfforddiant ar chwythu'r chwiban ar 21 Medi 2023.

- 3.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i aelodau ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar gyfer eu cyfarfod blynyddol ar 7 Mehefin 2023. Dywedodd fod nifer o bynciau wedi'u trafod a bod y cyfarfod yn un cadarnhaol. O ganlyniad i'r cyfarfod, estynnwyd gwahoddiad i'r Gweinidog ddod i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd i gyfarfod â'r aelodau a benodwyd ganddo'n ddiweddar i lunio'r Cyngor newydd o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Rydym yn aros am ymateb.

- 3.3 Yn dilyn trafodaethau'r Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf ar 20 Ebrill 2023 am ethol Cadeirydd i'r Cyngor, amlygodd y Cadeirydd y trafodaethau a gynhaliwyd ar y posibilrwydd o benodi dirprwy gadeirydd. Nododd fod cytundeb secondiad wedi'i wneud gyda'i chyflogwr i ddarparu ar gyfer ei gwaith fel Cadeirydd y Cyngor. O ystyried bod y cytundeb hwn wedi'i roi ar waith ac oherwydd iddi gael ei phenodi'n ddiweddar yn unig, awgrymodd gynnal y sefyllfa bresennol ac adolygu'r sefyllfa o ran y gofyniad am ddirprwy yn y dyfodol. Cefnogodd y Cyngor awgrym y Cadeirydd.

## 4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023

- 4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023 a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

**5. Hysbysu am unrhyw faterion yr hoffai'r aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

5.1 O ran CGA 38/23, adroddodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi adolygu'r adroddiad yn ei gyfarfod diwethaf ar 29 Mehefin 2023 ac wedi argymhell bod rhagor o fanylion gyda thrafodaethau a themâu manylach yn cael eu hychwanegu at yr adroddiad. Byddai hyn yn cael ei weithredu ar gyfer yr adolygiad blynyddol flwyddyn nesaf. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu fuddion papur o'r fath i'r Pwyllgor newydd a diolchodd i'r swyddogion am ddwyn yr argymhelliad yn ei flaen.

5.2 Ni hysbyswyd am unrhyw faterion pellach.

**6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi yr oedd angen tynnu sylw aelodau atynt na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Ni chododd aelodau unrhyw ymholiadau.

**7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023**

7.1 Cyflwynodd Nicola Stubbins, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi yr oedd angen tynnu sylw aelodau atynt na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda. Ac yntau'n Bwyllgor newydd, dywedodd fod aelodau wedi archwilio'r eitemau ar yr agenda yn fanwl yn ystod y cyfarfod i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cyd-destun.

7.2 Ni chododd aelodau unrhyw ymholiadau.

**8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr**

**CGA 27/23**

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw rywle arall ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau gan yr aelodau.

8.2 Cyfeiriwyd aelodau at baragraff pedwar a oedd yn adrodd yn ffurfiol ganlyniad etholiad diweddar Cadeirydd y Cyngor, gydag Eithne Hughes yn ymgymryd â'r rôl o 15 Mai 2023 ymlaen. Roedd y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyfleu i aelodau trwy'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol, ar ôl i'r etholiad ddod i ben. Cytunwyd ar gytundeb secondiad gyda chyflogwr y Cadeirydd, a'i roi ar waith, gydag 1.5 diwrnod yr wythnos yn cael ei neilltuo i'r Cadeirydd ymgymryd â gwaith y Cyngor.

8.3 Liz Brimble oedd y dirprwy dynodedig i'r Prif Weithredwr ar hyn o bryd. A hithau ar fin ymdeol ar 31 Awst 2023, roedd y Prif Weithredwr wedi ceisio mynegiannau o ddiddordeb

gan y cyfarwyddwyr eraill ar gyfer mabwysiadu dyletswyddau'r dirprwy. I ddiweddarau paragraff saith, dywedodd y byddai Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yn ymgymryd â'r dynodiad o 1 Medi 2023 ymlaen.

- 8.4 Fel yr adroddwyd ym mharagraff naw, ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Ysgolion i CGA ar 6 Ebrill 2023 yn amlinellu bwriad i adolygu'r "haen ganol" a gwahodd sylwadau ar y cylch gorchwyl a sut y dylid ymgymryd â'r adolygiad. Roedd y Prif Weithredwr wedi ymateb, gan fynegi bod y Cyngor wedi ystyried ers tro ei fod yn gyfochrog i'r haen ganol, yn hytrach na bod yn rhan ohoni. Rhoddwyd y farn y dylai parti annibynnol, ond gyda dealltwriaeth o gyd-destun Cymru, ymgymryd â'r adolygiad. Ni chafwyd ymateb eto i'r ohebiaeth.
- 8.5 Fel diweddariad i baragraff 23, dywedodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfod rhyngddo ef, y Cadeirydd ac Owain Lloyd (y Cyfarwyddwr Addysg) a drefnwyd ar gyfer 5 Gorffennaf 2023 wedi'i ganslo ar fyr rybudd. Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o'r gwrthbleidiau, y Blaid Geidwadol a Phlaid Cymru, ar 19 Mai a 26 Mehefin yn y drefn honno.
- 8.6 Gan gyfeirio aelodau at baragraff 30, amlygodd y Prif Weithredwr nifer o fanylion yng ngohebiaeth a gwaith ymgysylltu'r Cyngor, gan gynnwys lansio podlediad, gwefan newydd CGA a phresenoldeb y Cyngor mewn nifer o ddigwyddiadau a oedd ar ddod.
- 8.7 I ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi ymgysylltu â chynrychiolydd o'r corff newydd ei sefydlu, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Gobaith swyddogion oedd trefnu briff i'r Cyngor gan y corff yn y diwrnod hyfforddiant blynyddol nesaf ym mis Ebrill 2024, pan fyddai'r corff wedi sefydlu'n llawn ac yn gwbl weithredol.
- 8.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach am yr adroddiad.

**9. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol drafft 2022-2023 ac Adroddiad Monitro Blynyddol drafft Safonau'r Gymraeg 2022-2023** **CGA 28/23**

- 9.1 Cyflwynodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygu Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) yr adroddiadau hyn a oedd wedi'u trafod yn flaenorol ac, wedyn, eu hargymhell gan y Pwyllgor Gweithredol i'r Cyngor eu cymeradwyo. Nododd fod y ddau adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion craidd yn y meysydd hyn.
- 9.2 I ymateb i ymholiad aelod am fesur effeithiau'r camau a gymerwyd, nododd Bethan Stacey fod y ddau adroddiad yn eglurhaol, yn unol ag arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ond ei bod hi'n anodd canfod gwybodaeth fesuradwy uniongyrchol o ystyried maint y sefydliad ac amddiffyn data personol adnabyddadwy. Roedd swyddogion yn parhau i adolygu arferion gorau o ran sut i adrodd yn y maes hwn.
- 9.3 I ymateb i ymholiad aelod, cadarnhaodd Bethan Stacey fod gwybodaeth am gydraddoldeb yn gysylltiedig â chofrestreion yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi yn Ystadegau Blynyddol y Gweithlu y Cyngor a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.
- 9.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr i ddechrau trafodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nododd mewn blynyddoedd blaenorol, fod cyfarfodydd wedi'u cynnal yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd, fodd

bynag roedd y Cyngor blaenorol wedi penderfynu nad oedd angen y gwasanaeth hwn arno ar gyfer cyfarfodydd heb fod arsylwyr yn bresennol yn oriel y cyhoedd. Nododd hefyd fod agendau a chofnodion y Cyngor o gyfarfodydd blaenorol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn ddwyieithog fel rhan o'r bwndel o bapurau.

- 9.5 Trafododd aelodau'r ddarpariaeth a chytunont y byddent am i gyfarfodydd yn y dyfodol fod ar gael yn ddwyieithog. Cytunwyd y byddai'r ddarpariaeth yn digwydd o gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2023 ymlaen.
- 9.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach a chymeradwywyd y ddau adroddiad i'w cyhoeddi.

**10. Adroddiad blynyddol drafft Priodoldeb i Ymarfer CGA 29/23**

- 10.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad drafft a oedd wedi cael ei drafod yn flaenorol a'i argymhell wedyn gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio i'r Cyngor ei gymeradwyo.
- 10.2 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi.

**11. Uwchraddio Cronfa Ddata CGA CGA 30/23**

- 11.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn a oedd yn amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn wrth uwchraddio cronfa ddata CGA ar gyfer Cofrestru.
- 11.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 7, ac y rhoddwyd gwybod amdano yn flaenorol i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, yn ystod trafodaethau ar y manylebau i ymgorffori system gwaith achosion Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor, daeth i'r amlwg bod llawer o elfennau cymhleth i'w hystyried. Yn sgil hynny, cytunodd swyddogion ar ddiwygiad i gynllun y prosiect er mwyn caniatáu mwy o amser i ddatblygu a chytuno ar gam manyleb y prosiect. Cytunwyd mai 22 Mai 2024 fyddai'r dyddiad cyflwyno diwygiedig i'r system fod yn fyw.
- 11.3 Dywedodd Liz Brimble fod bwrdd prosiect mewnol o reolwyr o bob rhan o CGA yn cael ei sefydlu, gan fod y manylebau drafft ar gyfer datblygu'r system ar fin cael eu cwblhau. Byddai'r bwrdd yn cyfarfod yn fisol i adolygu cynllun y prosiect ac i sicrhau bod cynnydd o ran y prosiect yn cael ei gynnal.
- 11.4 Roedd cyfarfodydd bob pythefnos rhwng CGA ac uwch-reolwr y contractwr ar gyfer y prosiect yn parhau. Roedd cofnodion o'r cyfarfodydd a phwyntiau gweithredu'n cael eu nodi, gyda chyfrifoldeb wedi'i neilltuo, lle y bo'n berthnasol.
- 11.5 Gan gyfeirio aelodau at baragraff wyth, nododd Liz Brimble na fyddai Microsoft yn cefnogi fersiwn bresennol y gronfa ddata o Hydref 2023 ymlaen. Eglurodd y byddai'r system yn symud i ateb Cwmwl, a fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw darfu ar y gwasanaeth hyd nes lansio'r gronfa ddata wedi'i huwchraddio ym mis Mai 2024.
- 11.6 Dywedodd fod y manylebau ar gyfer gwaith y Cyngor o ran ei swyddogaeth gofrestru a'i swyddogaeth datblygu proffesiynol yn cael eu hadolygu'n derfynol a bod gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r terfynau amser cytunedig ar gyfer meysydd gwaith eraill y Cyngor.

- 11.7 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 12, roedd swyddogion wedi cytuno ar y dull ar gyfer glanhau data a mudo o'r system bresennol gyda'r contractwr ac roeddent wedi cyfarfod i adolygu a chytuno ar y meysydd data a'r gwerthoedd a fyddai'n cael eu mudo. Roedd y contractwr hefyd wedi cael rhestr gychwynnol o'r data yr oedd angen ei lanhau, yn ogystal ag is-set o ddata byw fel y gallai gwaith adeiladu'r isadeiledd a'r system ddechrau.
- 11.8 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio fod y Pwyllgor wedi cael trafodaeth fanwl am yr uwchraddio yn ei gyfarfod diwethaf, fel yr adroddwyd trwy'r cofnodion drafft. Rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor y byddai'r Pwyllgor yn parhau i oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r uwchraddio gan graffu ac archwilio ystyriaethau.
- 11.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

## **12. Adroddiad cynnydd ar SAC, Cofrestru a Sefydlu**

**CGA 31/23**

- 12.1 Cyflwynodd Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) yr adroddiad cynnydd hwn a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar waith Cofrestru CGA a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.
- 12.2 Fel yr adroddwyd yn atodiad A, cyfanswm nifer y cofrestreion unigol ar 12 Mehefin 2023 oedd 77,890, sef tua 2,000 o gofrestreion ychwanegol o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 12.3 Roedd y tîm yn parhau i dderbyn a phrosesu 65 cais y dydd ar gyfartaledd. Adroddodd Liz Brimble fod mwyafrif y ceisiadau'n parhau i gyrraedd ar gyfer categori cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol. Roedd nifer uchel o geisiadau wedi cyrraedd hefyd gan athrawon newydd gymhwyso, sy'n duedd gyffredin ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.
- 12.4 Fel yr adroddwyd ym mharagraffau 8 -10, roedd gwaith ar gyflwyno'r categorïau cofrestru newydd yn dod yn ei flaen yn dda yn sgil deddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ar 22 Mai 2023. Byddai cofrestreion newydd yn cael llythyr yn cadarnhau eu cofrestriad, ynghyd â chopi papur o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Roedd swyddogion yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gael y data diweddaraf sydd ar gael ar nifer yr ysgolion annibynnol yng Nghymru i sicrhau ein bod yn cysylltu â phob lleoliad a'u bod yn cael gwybod am eu dyletswydd ddeddfwriaethol i sicrhau bod staff wedi cofrestru.
- 12.5 Roedd gohebiaeth wedi'i hanfon i nifer o leoliadau gwaith ieuencid er mwyn cadarnhau'r ddarpariaeth a oedd ar waith yno. Roedd swyddogion yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd wedi cytuno i ddosbarthu gohebiaeth i Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Corfforaethol awdurdodau lleol er mwyn helpu i nodi unrhyw leoliadau pellach gan awdurdodau lleol a oedd yn cyflogi unigolion y byddai angen iddynt gofrestru yn awr.
- 12.6 I ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd Liz Brimble fod CGA yn hyderus ynghylch ei adnoddau a'i allu i reoli'r broses o gofrestru unigolion yn y categorïau newydd. Roedd y niferoedd cyfan yn gymharol fach o gymharu â chategorïau eraill, fel y sector addysg bellach, pan gawsant eu cyflwyno.
- 12.7 Gan gyfeirio aelodau at baragraff 11, amlygodd Liz Brimble yr ymgynghoriad sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio deddfwriaeth er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd yng nghyfansoddiad aelodaeth paneli Priodoldeb i Ymarfer. Gan fod nifer y categorïau cofrestru

wedi codi i 11 erbyn hyn, nododd fod yr hyblygrwydd hwn yn hanfodol i sicrhau y gallai paneli gael eu ffurfio'n effeithlon gyda'r lefel arbenigedd gywir ac i osgoi gwrthdaro buddiannau ymhlith grwpiau llai o gofrestreion.

- 12.8 Adroddodd Liz Brimble fod nifer o ddarpariaethau a phrosiectau data yn mynd rhagddynt / wedi'u cwblhau ers 1 Ebrill 2023, fel yr amlinellwyd yn atodiad B. Amlygodd fod y gwaith ar arolwg y gweithlu'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith wedi'u cwblhau, gydag adroddiad yr arolwg wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 30 Mehefin 2023. Roedd data lefel colegau unigol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ei ledaenu yn unol â pharamedrau cytunedig y gwaith a gomisiynwyd.
- 12.9 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 21, roedd gwaith yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl ar weinyddu a dyfarnu SAC i'r rhai sy'n ymgymryd â rhaglenni AGA yn 2022-23. I ymateb i ymholiad aelod am y data cadw a gedwir fel rhan o'r broses hon, cadarnhaodd Liz Brimble fod swyddogion yn dal data olrhain o ran yr unigolion sy'n ennill SAC ac sydd wedyn yn ymgymryd â'u cyfnod Sefydlu fel ANG. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o ddadansoddiadau data'r Cyngor.
- 12.10 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad cynnydd.

### **13. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer**

**CGA 32/23**

- 13.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.
- 13.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff pedwar, roedd 10 gwrandawriad wedi'u cwblhau hyd yn hyn ers 1 Ebrill 2023. Roedd swyddogion yn amcangyfrif y byddai tua 60 o achosion yn cael eu clywed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, a oedd yn cyd-fynd â'r ffigur yn y gyllideb.
- 13.3 Gan gyfeirio at baragraff pump, adroddodd Liz Brimble fod gan y Cyngor dri Gorchymyn Atal Dros Dro Interim byw a gyflwynwyd yn 2022, bob un ohonynt am 18 mis gydag adolygiadau ymhen 6 a 12 mis. Roedd yr adolygiadau 6 mis cyntaf ar gyfer y tri ohonynt wedi'u cwblhau ac roedd ymchwiliadau'n parhau, heb newid mewn amgylchiadau. Roedd Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim wedi'i drefnu i wrando ar achos newydd ac roedd Pwyllgor arall wrthi'n cael ei drefnu ar hyn o bryd i glywed atgyfeiriad pellach Gorchymyn Atal Dros Dro Interim.
- 13.4 I ddiweddarau paragraff naw, adroddwyd bod CGA wedi cael ei Apêl Sefydlu cyntaf ers 2014. Byddai aelodau'n cael diweddariadau ar y mater.
- 13.5 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 18, cwblhawyd recriwtio aelodau lleyg ychwanegol ym Mai 2023, gyda 9 aelod newydd yn cael eu penodi, gan ddwyn cyfanswm nifer aelodau'r panel i 62, yn cynnwys 12 Cadeirydd.
- 13.6 Cynhaliwyd hyfforddiant blynyddol gorfodol i aelodau panel a Chadeiryddion ar 22 a 23 Mehefin 2023, yn y drefn honno. Rhoddwyd sesiynau gan y Cyngor Deintyddiaeth Cyffredinol (GDC) a Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC), ac roedd adborth gan y mynychwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn.

- 13.7 Adroddodd Liz Brimble y byddai contract presennol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol yn dod i ben ar 30 Medi 2023. Byddai swyddogion yn ymgymryd â phroses gaffael, gyda Gwahoddiad i Dendro'n cael ei gyhoeddi trwy etenderwales, y wefan gaffael sector cyhoeddus.
- 13.8 Gan ymateb i ymholiad aelod ynghylch y ffigurau yn atodiad C, nododd Liz Brimble fod gan gyflogwyr ddyletswydd ddeddfwriaethol i atgyfeirio achosion i CGA yn unol â chanllawiau caeth sy'n ymwneud â diswyddiadau. Eglurodd fod rhai atgyfeiriadau a ddaeth i law yn rhai o ganlyniad i fethu cyfnod prawf. Gallai hyn ddigwydd am lawer o resymau nad oeddent yn cyfateb i gamymddwyn proffesiynol neu anghymhwyster. Byddai'r achosion hyn yn cael eu hasesu gan Bwyllgor Ymchwilio, a fyddai'n pennu p'un ai a oedd achos i'w ateb ai peidio.
- 13.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

#### **14. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon**

**CGA 33/23**

- 14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.
- 14.2 Rhestrodd paragraffau 6 – 11 y rhaglenni a fu'n destun monitro interim fel amod achredu. Roedd deilliannau wedi'u rhannu gyda Phartneriaethau yn unol â'r amserlenni a amlinellwyd yn y canllawiau monitro interim.
- 14.3 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, ystyriwyd nad oedd rhaglen un Bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Meini Prawf yn dilyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd cynllun gweithredu dilynol i fynd i'r afael â'r materion hyn i'r Bartneriaeth ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. O ganlyniad i wybodaeth a ddarparwyd ym mis Chwefror 2023 trwy arolygiad Estyn ac a ystyriwyd gan y Bwrdd, nodwyd mater diffyg cydymffurfio pellach a darparodd y Bartneriaeth gynllun gweithredu ychwanegol, i fynd i'r afael â'r materion hyn, i Estyn a CGA. Ym mis Mai 2023, ar ôl ymweliad dilynol â'r Bartneriaeth, penderfynodd y Bwrdd fod y rhaglen y parhau i fethu cydymffurfio â'r Meini Prawf a bod angen cynnydd pellach i fynd i'r afael â'r materion diffyg cydymffurfio. Byddai gweithgarwch Bwrdd yn digwydd yn nhymor yr hydref 2023 i bennu effeithiolrwydd ac effaith unrhyw gamau a gymerwyd. Roedd gweithgarwch arolygu Estyn wedi gorffen a'r adroddiad arolygu'n cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2023; byddai'r Bwrdd yn ystyried unrhyw dystiolaeth bellach a ddarparwyd o ganlyniad.
- 14.4 Gan gyfeirio at baragraff 12, dywedodd Bethan Stacey fod y cyfnod achredu ar gyfer saith rhaglen ar draws tair partneriaeth yn dod i ben ym mis Awst 2024. Roedd cyhoeddi'r Meini Prawf diwygiedig gan Lywodraeth Cymru wedi effeithio ar gyhoeddi'r broses ar gyfer ailachredu a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r broses. Roedd swyddogion wedi cytuno â'r partneriaethau perthnasol na fyddai cyflwyno'u rhaglenni i'w hailachredu yn digwydd yn hwyrach na mis Ionawr 2024.
- 14.5 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 14, parhaodd CGA i weithio gydag Estyn i ddrafftio sefyllfa gyffredin ar sut y byddai achredu, monitro ac arolygu yn ategu ac yn hysbysu ei gilydd, mewn un broses. Roedd drafft wedi'i rannu gyda phartneriaethau i'w ystyried ac, o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r adborth hyn, fe wnaeth CGA ac Estyn ymrwymo i ddatblygu'r ddogfen ymhellach, gyda chyfraniad gan weithgor o gynrychiolwyr partneriaethau. Cafodd cyfarfod cyntaf y gweithgor, y bwriadwyd ei gynnal ar 25 Mai 2023, ei ohirio.

14.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

## **15. Adolygiad o'r Gofrestr Risg**

**CGA 34/23**

15.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn gan atgoffa aelodau fod yr Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r Gofrestr bob tri mis. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf gan yr Uwch Dîm Rheoli ar 13 Mehefin 2023 a thrafodwyd y Gofrestr hefyd yn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod diwethaf ar 29 Mehefin 2023.

15.2 Cyfeiriwyd aelodau at baragraff pedwar a oedd yn amlinellu proffil risg y Cyngor. Adroddodd Lisa Winstone mai risgiau i enw da a risgiau ariannol oedd y prif risgiau i CGA o hyd.

15.3 Amlinellwyd yr asesiad o ddifrifoldeb y risgiau ym mharagraffau 6 – 7. Crynhodd fod naw risg yn adrodd risg weddilliol ganolig a bod y saith sy'n weddill yn asesu risg weddilliol isel. Adroddwyd fod y diffiniad o risg yn parhau i adlewyrchu awydd y Cyngor am risg, sef gwrth-risg.

15.4 I ymateb i ymholiad aelod am y risg sy'n gysylltiedig â diwygio deddfwriaeth i gynnwys staff eraill yn y sector ôl-16 fel y trafodwyd yn CGA 31/23, nododd y Prif Weithredwr y byddai swyddogion yn parhau i adolygu'r sefyllfa a thrafod ymhellach ar ôl i ddogfen ymgynghoriad Llywodraeth Cymru gael ei drafftio.

15.5 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu fod y Pwyllgor wedi trafod y Gofrestr Risg yn fanwl yn ei gyfarfod diwethaf. Gwnaed awgrymiadau ynghylch ei chyflwyno i aelodau graffu arni a chynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i adolygu'r mater mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

15.6 Nid oedd gan y Cyngor unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r Gofrestr Risg.

## **16. Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg**

**CGA 35/23**

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn ac esboniodd mai un o brif swyddogaethau CGA o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg.

16.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, gwnaed nifer o ddatblygiadau meddalwedd yn ystod blwyddyn 2022-23. Amlygodd yn benodol y 'feddalwedd pry cop', lle byddai swyddi gwag a roddwyd ar wefannau cyflogwyr yn cael eu dyblygu a'u hysbysebu ar Addysgwyr Cymru. Fel diweddariad i'r papur, adroddodd fod 19 ffrwd awdurdod lleol yn fyw a bod 12 ffrwd addysg bellach ar waith erbyn hyn. Roedd y feddalwedd wedi bod yn yrrwr allweddol traffig i'r wefan ac, am y tro cyntaf ers ei weithredu, roedd gan borth swyddi Addysgwyr Cymru fwy o swyddi addysg gwag byw yng Nghymru na'i gystadleuwr mwyaf.

16.3 Gan gyfeirio at baragraff chwech, adroddodd Bethan Stacey fod swyddogion yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer cynyddu'r defnydd o borth swyddi Addysgwyr Cymru. Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru i CGA ddrafftio papur byr yn amlinellu cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu'r porth swyddi fel sylfaen ar gyfer y gwaith hwn. Darparwyd y papur i Lywodraeth Cymru ar 2 Mehefin 2023.

- 16.4 Nododd Bethan Stacey y gwaith eiriolaeth sylweddol a oedd yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac yr adroddwyd amdano ym mharagraffau 9 – 14. Amlinellodd nifer o enghreifftiau lle'r oedd y gwaith eiriolaeth wedi arwain at ddeilliannau mesuradwy o ran presenoldeb ac ymgysylltu. Fe wnaeth swyddogion barhau i fynychu nifer uchel o ddigwyddiadau, fel yr adroddwyd yn atodiad A.
- 16.5 Rhoddodd aelodau sylwadau cadarnhaol am wefan Addysgwyr Cymru a pha mor hawdd ydoedd i'w defnyddio, a nodont y cynnydd calonogol yn y maes hwn.

## **17. Adolygiad a thrafodaeth y Cyngor am ddiwrnod hyfforddiant blynyddol aelodau**

**CGA 36/23**

- 17.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a roddodd drosolwg o'r ymatebion a gasglwyd o broses adolygiad blynyddol aelodau yn gysylltiedig â'r Cyngor a ddaeth i ddiwedd ei dymor ar 31 Mawrth 2023. Gofynnwyd i aelodau nodi'r sgorau a'r adborth cadarnhaol a ddeilliodd o'r adolygiad.
- 17.2 Hefyd, nododd y papur y byddai diwrnod hyfforddiant blynyddol aelodau yn digwydd ym mis Ebrill 2024. Roedd hyfforddiant blynyddol i aelodau'n digwydd ym mlynnyddoedd 2, 3 a 4 tymor y Cyngor, gyda hyfforddiant sefydlu ym mlwyddyn 1. Nododd y Prif Weithredwr y byddai gwaith yn dechrau cyn bo hir ar yr agenda ar gyfer yr hyfforddiant a gwahoddodd aelodau i gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol gydag unrhyw anghenion hyfforddiant neu awgrymiadau sydd ganddynt.
- 17.3 Gan ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod swyddogion yn ddiolchgar am sylwadau ac adborth aelodau a'u bod yn ymdrechu i wneud unrhyw drefniadau neu weithredu unrhyw newidiadau i gynorthwyo aelodau i ymgymryd â'u rôl fel aelodau'r Cyngor. Nododd fod symud i bapurau electronig a gweithredu diwrnod hyfforddiant blynyddol yn lle sesiynau brifio gwybodaeth cyn / ar ôl cyfarfodydd Cyngor yn enghreifftiau blaenorol o newidiadau a wnaed yn dilyn cylch adolygu.
- 17.4 Nododd aelodau'r sgoriau cadarnhaol.

## **18 - 23. Eitem wybodaeth/eitemau gwybodaeth**

Derbyniodd yr aelodau bapur(au) "er gwybodaeth" ar:

- **Adolygiad chwarterol (1 Ionawr– 31 Mawrth 2023)** (CGA 37/23)
- **Adolygiad o flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu** (CGA 38/23)
- **Sefydlu Statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)** (CGA 39/23)
- **Adroddiad ar safonau proffesiynol ôl-16 a silwetau a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru** (CGA 40/23)
- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC)** (CGA 41/23)

- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol**

**(CGA 42/23)**

## **24. Unrhyw fater arall**

24.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a chaewyd y cyfarfod cyhoeddus.

**Symudodd y Cyngor i sesiwn breifat**